

# Cymdeithas Edward Llwyd

## Cylchlythyr Rhif 1

# www.llên-natur.com

(tamaid i aros [www.pryd !](http://www.pryd!))

## Gwefan i Naturiaethwyr a Phobl Cymru

Pwrpas y cylchlythyr hwn yw pontio rhwng gwybodaeth papur a'r we.

Ni fydd y wefan yn ei le am flwyddyn o leiaf. Cymaint fu'r diddordeb ym mhrosiect Llên Natur, mae'n bwysig cynnal y brwdfrydedd yn y cyfamser. (Cofiwch hefyd fod [www.llenyllysiau.com](http://www.llenyllysiau.com) yn weithredol rwan.) Hwn felly yw'r cyntaf o gylchlythyron achlysurol i ymddangos rhwng rwan a chyhoeddi ar y we.

## Llên y Llysiau

### diweddariad

Fydd [www.llenyllysiau.com](http://www.llenyllysiau.com) yn parhau yn ei hawl ei hun am y tro cyn cael ei ymgorffori yn Llên Natur. Yn wir mae o'n dal i dyfu ac yn dal i ddatblygu.

Erbyn hyn cewch chwilio yn yr Oriel luniau am blanhigyn arbennig, neu ffeil arbennig neu ddod o hyd i luniau chi eich hun.

*Cafodd mathau o Mimulus eu tyfu fel addurn pyllau gerddi erbyn 1759. Cawsant eu hadnabod yn y gwyllt ers o leiaf 1830.*

*Cyfrannwyd y llun ar ran y diweddariad Wil Jones*



- Gwefan o wybodaeth ysgrifenedig, llafar a thrwy ddelweddau am gefn gwlad y gall defnyddwyr gyfrannu ati, a'i defnyddio.
- Bydd yn estyniad o'r wefan Llên y Llysiau ([www.llenyllysiau.com](http://www.llenyllysiau.com)) sydd yn delio â phlanhigion yn unig, a bydd cronfa Llên y Llysiau yn cael ei chymhathu i'r wefan estynedig newydd
- Mi fydd y wefan yn darparu adnoddau geiriadurol, termiadurol a bydd yn ffynhonell o wybodaeth gefndirol bwysig.
- Mi fydd y wybodaeth yn cael ei threfnu o dan 5 o gronfeydd: Llên y Llysiau, Llên yr Anifeiliaid, Llên yr Hin, Llên y Creigiau a Llên y Llefydd.
- Mi fydd y wefan yn adnodd yn ei hawl ei hun ac yn wan-stop-siop, trwy ddolennau i bob math o gronfeydd eraill perthasol.

## Cofnod Tywydd 17 Rhag 2001:

**CYMRU - pwysedd awyr uchaf erioed yn y cyfnod cofnodi.  
CORSICA- eira mawr a'r trydan yn methu.**

**8-19 Dec 2001** was rather special, I've got many entries in my diary for those dates.

**8 Dec**, -34C at Ust'Ishim in Russia, an indication of the very cold air that led to such intense high pressure. ( If you follow the weather maps from 8-11 Dec you will see how this cold pool of air migrated west to form the intense high over the UK - we always get our strongest highs in winter because of the cold heavy air needed to form them )

**11 Dec**, +16C at Nantmor in Föhn\* E wind, ironically the high pressure created sinking mild air on its SW flank, we had 10 sunny days here in Waunfawr from 8-17 Dec. However, to the south of the High bitter cold winds swept from Russia across Europe (we didn't get the cold air until the 15th, we then had 10 air frosts from then to end of month )


**14 Dec**, extremely cold burst of continental air across Europe - snow on Riviera, -12C at Salzburg & Munich, -11 at Zurich, -1 at Biarritz, -2 at Bordeaux. -31 on Jungfrau coldest there since Dec 1962

**16 Dec**, Heavy snow in NE Spain north of Barcelona, 6 people die. Roads on Corsica unpassable after heaviest snowfall on island since 1987.

**21 Dec**, cold weather continues across Europe, day highs of -1 at Biarritz 0 at Barcelona +5 Madrid, -11 Moscow

**Gyda diolch i Huw Holland Jones, Waunfawr a fu'n cofnodi'r tywydd ers fod yn ieuanc**

*\* Gwynt Föhn yw'r gwynt y mae pobl yr Alpau yn ei ofni. Gan amlaf mae'n dod o'r de ac yn gynnes iawn. Mae arfordir gogledd Cymru hefyd yn ardal o wyntoedd Föhn yn y gaeaf sydd yn achosi gwres eithriadol ar adegau. Enw'r gwynt hwn ym mynyddoedd y Rockies, Gogledd America, yw Chinook.*



Siart Synoptic Ewrop 17 Rhagfyr 2001 gyda diolch i <http://theweatheroutlook.com/twodata/dathistcharts.aspx>



Gwefan Gymraeg yw Llên Natur sydd yn mynd allan i'r byd mawr rhyngwladol. Mae croeso felly i bob math o gofnodion perthnasol yn eu hiaith wreiddiol, boed, estron hynafol neu iaith pob dydd. Mae'n bwysig cadw at y gwreiddiol ymhob ffordd. Mae pob cofnod yn adlewyrchu cymeriad y person yn ogystal a'r digwyddiad naturiol. Cyfieithiwch neu droschwch ar pob cyfrif ond peidiwch a newid y gwreiddiol.

*L l ê n y r H i n*

Cerdyn post yn dangos sut mae coed wedi ymledu dros y ganrif ddiwethaf yn nyffryn Aber, ger Bangor....



Tua 1915.....a 2001

"Breichiau", Aber, (saeth) yn ddigoed, tua 80 mlynedd yn ôl...pam?



Perchnogion y tir yma yn y 19eg ganrif oedd ystad y Baron Hill, gadawsant i'r tenantiaid ddefnyddio'r darn yma o dir.

Daeth y dyfyniad isod o bapurau'r stad.

**"Waste held in common by tenants"**

Y darn tir dan sylw yw'r llecyn glas ar y map.

Pan ddaeth y tir i ddwylo perchnogaeth a threfn newydd daeth y coed yn ôl.



Enw ar fferm ger Bethel yw *Cae Hob*. Ystyr hob yw mochyn. Dyma rai o'r enwau eraill sydd ar yr anifail hwn mewn enwau llefydd Cymraeg: hwch, baedd, porchell, banw, gwys, twrch. Cofir am yr hob yn y gytgan enwog "Hob y deri dando" - adsain o'r hen arfer o ddod ar hob o'r deri (lle rhedent yn wyllt) i'w ladd a'i osod ar fachyn dan y to (dando)!



Mae cerdyn post yn ffynhonnell bwysig o hanes cefn gwlad. Mae'r stampiau arnynt yn awgrymu pa bryd y cawsant ei danfon ac felly rhyw bryd cyn hynnu y cafodd y llun ei dynnu. Dyma stampiau yn dangos y gwahanol brenhinoedd a breninesau dros gyfnod y cerdyn post mwy o wybodaeth yn y rhifyn nesaf.

*Rhowch dyddiadau pob un yn erbyn y stampiau.*



.....a fel hyn mae Cyngor Tref Conwy wedi dathlu hen ddiwydiant pysgota cregyn gleision



Fel hyn mae Cyngor Tref Lyme Regis wedi defnyddio ffurf eu hamoneitiau enwog ar bolion lamp y prom.....

## *L l ê n y C r e i g i a u*



### **Naturiaethwyr Cymru 1**

Y Ddiweddar Mary Vaughan Jones, Waunfawr; Maldwyn Thomas, Dolgellau;

Y Diweddar Wil Jones, Croesor/Dyffryn; a Peter Benoit, Y Bermo.

*Dewch a lluniau eich hoff naturiaethwyr eraill, i'w cynnwys yma ac ar y wefan!*

#### **Gwefannau o ddiddordeb... mwy tro nesa'**

<http://gwaithmaes.org/>

<http://www.e-gymraeg.co.uk/enwaulleoedd/amr/>

<http://www.naturcymru.org.uk/cynnwys.htm>

<http://www.wildlifetrust.org.uk/northwales/>

*Gol. Duncan Brown ac Ifor Williams. ychwanegwch ddeunydd i - [llennatur@yahoo.co.uk](mailto:llennatur@yahoo.co.uk)*